

Aros Adref a Chadw Draw Oddi Wrth Bobl Eraill

Cosbau a phwerau'r heddlu

Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth y gallwn i leihau lledaeniad y coronafeirws er mwyn helpu'r GIG ac achub bywydau. Aros adref a chyfyngu ar deithiau nad ydynt yn rhai hanfodol yw'r peth pwysicaf y gall pob un ohonom ei wneud.

1. Pwerau a chosbau

Heddiw rydym wedi cyflwyno set newydd o reolau y gall yr heddlu eu gorfodi. Os nad ydych yn cydymffurfio, ac os ydych yn gadael eich cartref heb esgus rhesymol, neu'n ymgasglu mewn man cyhoeddus at ddibenion nad ydynt yn hanfodol, gall yr heddlu yn awr:

- Rhoi cyfarwyddyd i chi fynd adref, gadael ardal neu wasgaru a/neu wneud yn siŵr bod plentyn yr ydych yn gyfrifol amdano/amdani yn gwneud yr un peth
- Os oes gan yr heddlu reswm i gredu bod eich plant yn torri'r rheolau dro ar ôl tro, gallant eich cyfarwyddo i gymryd camau rhesymol i atal eich plant rhag torri'r rheolau hyn
- Mynd â chi adref
- Eich arestio – os nad ydych yn dilyn eu cyfarwyddiadau neu ble y maent yn barnu bod hynny'n angenrheidiol
- Os ydynt yn credu eich bod wedi torri'r rheolau (sydd wedi'u nodi isod), gall swyddog heddlu roi hysbysiad cosb benodedig i chi am £30, gan ddyblu i £60 os na fyddwch yn talu o fewn 14 diwrnod. Mewn achosion o'r fath, gallant hefyd eich dirwyo os byddwch yn gwrthod dilyn eu cyfarwyddiadau. Os ydych eisoes wedi cael hysbysiad cosb benodedig am dorri'r rheolau hyn, byddai hysbysiad cosb benodedig ddilynol a gyhoeddwyd ar gyfer torri'r rheolau hyn yn £120

Gallant fynd â chi i'r llys os nad ydych yn talu, a gall ynadon roi dirwyon diderfyn.

2. Rheolau

Dan y rheolau hyn, ni ddylech adael eich cartref oni bai bod hynny'n wirioneddol angenrheidiol ar gyfer un o'r dibenion canlynol:

- Siopa am hanfodion cartref sylfaenol gan gynnwys bwyd a chyflenwadau meddygol a chael cyflenwadau sylfaenol (gan gynnwys arian)
- Gwneud ymarfer corff- dim mwy nag unwaith y dydd- ar eich pen eich hun neu gyda rhywun arall sy'n byw ar eich aelwyd
- Am reswm meddygol

- I helpu person bregus
- Teithio at ddibenion gwaith lle na allwch yn rhesymol weithio gartref
- Osgoi neu ddianc rhag y perygl o anaf, salwch neu niwed
- I ddarparu cymorth brys

Gallwch adael eich cartref hefyd i:

- Mynd i angladd aelod o'ch aelwyd neu aelod agos o'ch teulu (neu angladd ffrind os oeddent yn byw ar eu pen eu hunain neu os nad oedd ganddynt deulu agos) neu fel gofalwr i rywun sy'n cael mynychu angladd am un o'r rhesymau hyn
- Bodloni rhwymedigaeth gyfreithiol, fel mynd i'r llys
- Cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol, megis cyfleusterau plant neu addysgol, neu pan y'u cynghorir i wneud hynny yn bersonol gan y gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau i ddioddefwyr
- Hwyluso trefniadau cyswllt lle mae rhieni neu berson sy'n gofalu am blentyn yn byw mewn cartrefi ar wahân
- Symud tŷ
- Rhoi gwaed
- Os ydych yn weinidog crefyddol neu'n arweinydd addoli, er mwyn mynd i'ch man addoli

Hefyd, ni ddylech ymgasglu mewn mannau cyhoddus gyda mwy nag un person oni bai eich bod yn ymateb i argyfwng, at ddibenion gwaith hanfodol, neu os ydych gydag aelod agos o'ch teulu neu'r aelwyd.

Yn ogystal, bydd y llywodraeth yn rhwystro digwyddiadau cymdeithasol, gan gynnwys priodasau, bedyddiadau a seremonïau crefyddol eraill. Bydd hyn yn eithrio angladdau, y gall teulu agos eu mynychu.

Yn ogystal, mae'r llywodraeth yn atal digwyddiadau cymdeithasol a digwyddiadau megis priodasau a bedyddiadau ac rydym yn argymhell nad yw digwyddiadau cymdeithasol lle mae pobl o fwy nag un aelwyd yn dod at ei gilydd yn cael eu cynnal. Gall yr heddlu wasgaru digwyddiadau o'r fath.

Ni chewch fynediad i lwybrau penodol a thiroedd a gaewyd gan awdurdod cyhoeddus oni bai bod caniatâd gennych i wneud hynny. Bydd hysbysiadau mewn

mannau amlwg ac os methwch â chydymffurfio gall yr heddlu eich symud (gan ddefnyddio grym rhesymol os oes angen) neu eich arestio.

3. Ymagwedd yr heddlu

Efallai y bydd amgylchiadau cyfyngedig eraill, nad ydynt wedi'u nodi yn y rheolau hyn, sy'n ei gwneud yn angenrheidiol i chi gwrdd ag eraill neu adael eich cartref.